Papur Oxfam Cymru, Cynhadledd NRG4SD, Caerdydd Mawrth 2004

NRG4SD&ADM

Rhoi Terfyn ar Dlodi:

Rôl Rhwydwaith Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygiad Cynaliadwy i wireddu **Amcanion Datblygiad y Mileniwm**

1. Dileu newyn a thlodi difrifol
2. Cyflawni addysg gynradd gyffredin
3. Hyrwyddo cydraddoldeb rhyw a grymuso menywod
4. Lleihau marwolaethau ymhlith plant
5. Gwella iechyd mamol
6. Brwydro yn erbyn HIV/AIDS, malaria ac afiechydon eraill
7. Sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol
8. Datblygu partneriaeth fyd-eang dros ddatblygiad

"Hon yw'r genhedlaeth gyntaf I feddu ar y grym I ddileu tlodi difrifol."
Kofi Annan, Ysgrifennydd Cyffredinol y CU

Oxfam

Pum mlynedd yn ddiweddarach: Amser i Gyflawni

Ym mis Medi 2000, llofnododd 189 o aelod wledydd y CU Ddatganiad Datblygiad y Mileniwm, gan addo bodloni'r amcanion hyn i haneru tlodi byd-eang erbyn 2015. Hyd yma, mae nifer o lywodraethau wedi torri'u haddewidion trwy fethu cymryd y camau angenrheidiol i'w bodloni. Gyda deng mlynedd yn weddill, mae'n rhaid i ni weld newid mawr yn 2005 yn ymroddiad llywodraethau'r Gogledd a'r De.

- Mae'n rhaid i lywodraethau gwledydd cyfoethog lynu at eu hymrwymiadau at les, dyled a masnach, er mwyn gweithredu'r cyllid a'r isadeiledd angenrheidiol i fodloni Amcanion Datblygiad y Mileniwm (ADM).
- Mae'n rhaid i lywodraethau gwledydd datblygol weithio ochr yn ochr â chymdeithasau a chymunedau sifil i lunio cynlluniau cadarn, sy'n eiddo cenedlaethol, i gyflawni'r ADM.

Gyda'r ewyllys a'r adnoddau gwleidyddol angenrheidiol, gellir bodloni'r targedau hyn. Cred Oxfam fod gan lywodraethau rhanbarthol rôl hanfodol i'w chwarae, nid yn unig wrth annog eu llywodraethau cenedlaethol i barchu'u hymrwymiadau, ond wrth hyrwyddo, dylanwadu ar a chyflwyno'r ADM 'yn ymarferol' – ac wrth adeiladu partneriaeth fyd-eang dros ddatblygiad.

Rôl Llywodraethau Rhanbarthol

"Mae angen i economïau dyfu i ddarparu swyddi a mwy o incwm i bobl dlawd. Mae'n rhaid i systemau addysg ac iechyd gyflwyno gwasanaethau i bawb, dynion a menywod, cyfoethog a thlawd. Mae'n rhaid i isadeiledd weithio a bod yn hygyrch i bawb. Ac mae'n rhaid i bolisïau rymuso pobl i gymryd rhan yn y broses ddatblygu. Tra bod llwyddiant yn dibynnu ar weithredoedd gwledydd datblygol, y mae'n rhaid iddynt gyfeirio'u datblygiad eu hunain, mae yna lawer y mae'n rhaid i wledydd cyfoethog ei wneud i helpu." Rhaglen Ddatblygu y CU, Nod 8

"Mae llywodraethau cenedlaethol yn rhy fach ar gyfer y materion mawr, ac yn rhy fawr ar gyfer y materion bach – dyma yw rôl y rhanbarthau." Cynadleddwr NRG4SD

Cred Oxfam fod datganoli pŵer yn sensitif yn chwarae rôl allweddol mewn llywodraethu da. Mae llywodraeth sy'n agosach at y bobl gyffredin yn darparu gwell cyfleoedd ar gyfer:

- Lleisiau'r bobl hynny sy'n byw mewn tlodi i effeithio ar brosesau llunio polisïau
- Gweithredu polisi sydd o blaid pobl dlawd, ac sydd wedi'i arwain gan y gymuned
- Tryloywder ac atebolrwydd wrth weinyddu a chyflwyno gwasanaethau i'r rheiny sy'n byw mewn tlodi, fel iechyd ac addysg.

Yn ein barn ni, mae llywodraethu rhanbarthol cryf yn allweddol i gyflwyno Amcanion Datblygiad y Mileniwm yn effeithiol.

Sialens i'r NRG4SD

Wrth achub ar y cyfle i weithio gyda'i gilydd ar gyfer datblygiad cynaliadwy, ein cred ni yw y gall NRG4SD arwain y byd trwy esiampl wrth adeiladu partneriaeth fyd-eang ar gyfer datblygiad. Mae Oxfam yn cydnabod:

- Yr amrywiaeth sylweddol o ran pŵerau a dylanwad deddfwriaethol rhwng llywodraethau rhanbarthol ar draws y NRG4SD.
- Yr amrywiaeth yn y materion cynaladwyedd y mae aelod lywodraethau'n ceisio mynd i'r afael â nhw.

Fodd bynnag, credwm fod yn rhaid ystyried cyfranogiad gwledydd datblygol ac 'agenda datblygu' sydd o blaid pobl dlawd yn allweddol i hygrededd y rhwydwaith, os ydym am wneud unrhyw gynnydd ystyrlon ar ddatblygiad cynaliadwy byd-eang. Os bydd aelodau'n canolbwyntio'n ormodol ar faterion 'treuliant' gwledydd cyfoethog, bydd agenda'r rhwydwaith yn llai perthnasol i wledydd datblygol a bydd yn methu mynd i'r afael â'r materion cynaladwyedd byd-eang gwirioneddol sy'n bodoli yn y byd heddiw.

"Allwch chi ddim brolio am fod yn wyrdd yn eich milltir sgwâr, os ydych chi'n gwneud i bobl dlawd wneud y gwaith brwnt ar eich rhan – ac yn ysbeilio'u hamgylchedd nhw yn lle."
Cyfranogwr y Fforwm Ieuenctid

Mae'n rhaid i'r NRG4SD:

- Roi blaenoriaeth i agenda polisi sy'n gosod materion datblygu – gyda ffocws penodol ar ADM – ar y pen blaen.
- Datblygu ymagweddau polisi cyfranogol, ochr yn ochr â chymdeithas sifil, sydd nid yn unig yn 'rhoi llais' i'r tlawd, ond sy'n llywio ac yn dylanwadu ar brosesau NRG4SD yn uniongyrchol.
- Ceisio'n rhagweithiol i weithio'n agos gyda llywodraethau rhanbarthol Affrica gyda chydymagwedd at agenda'r ADM / Datblygiad Cynaliadwy (DC).
- Chwarae rôl weithredol wrth hyrwyddo a lledaenu arfer gorau ar gyfer integreiddio targedau ADM i gynlluniau DC.

Gyda sylfaeni eang a chadarn, cred Oxfam y dylai'r NRG4SD geisio datblygu'i broffil a'i rôl wrth hyrwyddo datblygiad cynaliadwy gydag uchelgais, i gyflawni mwy o effaith fyd-eang.

- Byddem yn annog y rhwydwaith i ystyried gwneud cyd-gyflwyniad ar DC a'r ADM i Gynhadledd Penaethiaid Gwledydd y CU yn yr Hydref 2005.

Sialens i Lywodraethau Rhanbarthol

Mae'n rhaid i lywodraethau rhanbarthol ddefnyddio'u dylanwad ar bob lefel i gyflawni Nodau Datblygiad y Mileniwm.

- Mae'n rhaid i **gynlluniau datblygiad cynaliadwy** ddangos dadansoddiad clir o dlodi a hawliau dynol yn ogystal â materion amgylcheddol. Rhaid iddynt hefyd osod strwythurau i wirio penderfyniadau ar bob lefel yn erbyn eu heffaith fyd-eang, i sicrhau na rwystrir cyflawni'r ADM yn ddiarwybodf.
- Mae'n rhaid i lywodraethau rhanbarthol y De a'r Gogledd fod yn rhagweithiol wrth gynnwys **cyfranogiad cymdeithas sifil** o ran datblygu, cyflwyno a gwerthuso Cynlluniau Strategaeth Lleihau Tlodi ansawdd uchel sy'n sensitif i ryw, ac sy'n cynnwys mecanweithiau cydatebolrwydd (fel monitro cyllidebau), rhwng budd-ddeiliaid cymunedol a llywodraethau.

Dylai llywodraethau rhanbarthol (y De a'r Gogledd) gymryd camau i sicrhau y gall pobl dlawd gael gwasanaethau cymdeithasol sylfaenol – **Iechyd ac Addysg** – heb wynebu rhwystrau gwaharddol fel ffioedd i ddefnyddwyr. Gall a dylai Llywodraethau Rhanbarthol weithio gyda'i gilydd i ganfod datrysiadau arloesol i faterion mynediad, yn ogystal â chanfod ffyrdd i gynnwys cymunedau mewn rhaglenni addysg

gymunedol mwy anffurfiol, ond sydd yn aml yn gallu achub bywydau, er enghraifft HIV / AIDS neu garthffosiaeth.

- Mae Llywodraethau Rhanbarthol yn gwario canran mawr o'u cyllidebau ar gaffaeliad; mae'n rhaid i **bolisïau caffaeliad** barchu **hawliau llafur** sy'n greiddiol i'w strategaethau cadwyn gyflenwi. Yn syml, gall swyddi da i bobl mewn gwledydd datblygol eu galluogi i weithio'u ffordd allan o dlodi – tra bod swyddi gwael yn sicrhau bod y gwrthwyneb yn wir. Dylai llywodraethau rhanbarthol arnodi codau ymddygiad Sefydliad y Llafur Rhyngwladol (ILO), a dylid adlewyrchu'r rhain yn y defnydd o arian cyhoeddus – er enghraifft, wrth ddyfarnu arian grantiau i fuddsoddwyr a chorfforaethau preifat.
- Mae Llywodraethau Rhanbarthol yn chwarae rôl bwysig wrth hyrwyddo **cynnyrch amaethyddol lleol** yn ddomestig ac mewn marchnadoedd rhyngwladol – gan gefnogi bywoliaeth gynaliadwy i'w ffermwyr eu hunain. Fodd bynnag, mae cynnyrch '**Masnach deg'** hefyd yn rhoi modd o warantu bywoliaethau cynaliadwy i gymunedau amaethyddol gwledydd datblygol. Dylai cynlluniau cynaladwyedd geisio hyrwyddo cynnyrch 'Masnach deg' ochr yn ochr â mentrau bwyd lleol.
- Dylai llywodraethau rhanbarthol gwledydd datblygol gefnogi cymunedau amaethyddol trwy fentrau **masnachu cydweithredol**, fel 'Masnach deg', sy'n hwyluso mynediad at farchnadoedd cynaliadwy a dibynadwy. Hefyd, gallai aelodau NRG4SD gymryd y cam mentrus o ddatblygu cynlluniau 'masnach deg' rhwng eu marchnadoedd *ei gilydd.*
- Mae gan lywodraethau rhanbarthol y De a'r Gogledd ddylanwad dros, neu gyfrifoldeb uniongyrchol am, benderfyniadau a all luosogi neu reoli'r **Fasnach Arfau** – boed hynny trwy gefnogi busnes a diwydiant sy'n gwneud cydrannau arfau, neu gymunedau lle mae argaeledd arfau wedi arwain at droseddau ag arfau a thrasiedi. Mae'r fasnach arfau'n *tanseilio holl waith* datblygiad cynaliadwy trwy hyrwyddo gwrthdaro ac, yn rhy aml, yn gorfodi pobl i adael eu cymunedau. Mae'n rhaid i lywodraethau rhanbarthol archwilio'u polisïau er mwyn rhoi blaenoriaeth i fywydau pobl, a dylai cynlluniau DC geisio orfodi codau ymddygiad priodol.
- Bydd polisïau sy'n cefnogi **Addysg dros Ddatblygiad Cynaliadwy** ar lefelau rhanbarthol yn helpu diogelu ymrwymiad cenedlaethau'r dyfodol i ddileu tlodi. Gellid hybu hyn ymhellach trwy ddatblygu cysylltiadau cyfnewid addysgol rhwng gwledydd datblygedig a gwledydd datblygol.
- Dylai llywodraethau rhanbarthol gymryd camau rhagweithiol i hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer **trosglwyddo gwybodaeth a thechnoleg** tuag at ddatblygiad cynaliadwy sydd o blaid pobl dlawd.

Dylai llywodraethau rhanbarthol geisio defnyddio'u dylanwad i hyrwyddo Amcanion Datblygiad y Mileniwm yn weithredol o fewn eu cydestunau cenedlaethol, ac yn beonodol:

O fewn gwledydd cyfoethog:

- Annog a chyflwyno ymrwymiadau cenedlaethol ar ddiwygio masnach o blaid pobl dlawd (yn benodol, ar gymorthdaliadau amaethyddol a dympio)
- Dileu holl ddyledion Gwledydd Tlawd sydd mewn Dyled Mawr sy'n ymroi i leihau tlodi
- Gwireddu targed cymorth GDP 0.7% y CU sy'n ofynnol i gyflwyno Nodau Datblygiad y Mileniwm.

O fewn gwledydd datblygol:

- Gweithio ochr yn ochr â chymdeithas sifil wrth ddatblygu Cynlluniau Strategaeth Lleihau Tlodi a fydd yn cyfrannu at gyflwyno'r ADM yn y lle pwysicaf – dileu tlodi ar lefel gymunedol.

© Oxfam Cymru, Mawrth 2003. Mae Oxfam Cymru ac Oxfam GB yn aelodau o Oxfam International. Elusen Gofrestredig rhif. 202918. Craig Owen ysgrifennodd y papur hwn, gyda chymorth Jon Townley ac Owain James. Mae'n rhan o gyfres o bapurau a ysgrifennwyd i lywio'r ddadl gyhoeddus ar faterion polisi datblygiad a dyngarol. Caniateir defnyddio'r testun at ddibenion ymgyrchu, addysgu, ac ymchwil, ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell yn llawn. Mae mwy o gopïau o'r papur hwn a deunyddiau ategol ar gael yn Saesneg, Cymraeg, Ffrangeg a Sbaeneg trwy anfon neges e-bost at oxfamcymru@oxfam.org.uk, neu drwy ysgrifennu at Oxfam Cymru, Adeiladau'r Farchnad, 5-7 Heol y Santes Fair, Caerdydd, Cymru, CF10 1AT Prydain Fawr.
www.oxfam.org.uk

Published by Oxfam International March 2004
Published by Oxfam GB for Oxfam International under ISBN 978-1-84814-487-3